CADWALADR, Syr RHYS (bu farw 1690), bardd

Enw: Rhys Cadwaladr
Dyddiad marw: 1690
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Norma Gwyneth Hughes

O Gelynnin, ger Conwy, yn ôl Siôn Edward, ond o'r Coleg yn nhre Conwy yn ôl ei dystiolaeth ei hun (Llanstephan MS 15, t. 37). Y dyddiad cyntaf a geir amdano yw 1666; canodd i un o deulu Gwydir yn 1674, a chanodd lawer i deulu Mostyn ac un gân i Thomas Mostyn ar adeg y Calan, 1678. Ni cheir dyddiad pendant arall ar ôl 1689, pan ganodd gywydd marwnad i Thomas Jones, sywedydd, Corwen. Bu farw y flwyddyn ganlynol, 1690 (Llanstephan MS 15, t. 34).

Mae llawer o'i waith ar gael, yn cynnwys 24 englyn, ar wahân i'w gyfieithiadau i'r Gymraeg o waith Horas a Seneca a chywydd marwnad i John Hookes o Gonwy, a briodolir iddo ond a ysgrifennwyd dros William Fychan yn ôl rhai llawysgrifau.

Awdur

Norma Gwyneth Hughes

Ffynonellau

Archifau LlGC: Llanstephan MS 15: Poetry of Cynddelw, Bleddyn Fardd, &c. (31, 37)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 117: Miscellanea (30)

Archifau LlGC: Llanstephan MS 166: Poetry, &c. (252, 258, 298)

Llawysgrifau Mostyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, 96 (27, 39, 41, 42, 43, 62, 63, 64, 80), 148 (939b and c, 941d, 942b and c)

NLW MSS 558 (1, 5), 836 (22), 11,087 (61, 62)

Llawysgrifau Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth 239 (344), 241 (400)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rhys Cadwaladr

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q7321764

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu